Apêl y Grawys a'r Pasg 2018

Dyma Dimma.

A wnewch chi gerdded gyda hi'r Grawys hwn?

Cyfra dy Fendithion 2018

Cerddwch i mewn i'r anialwch y Grawys hwn

Trwy fyfyrdodau dyddiol, rhannwch eich taith gyda'ch chwiorydd a'ch brodyr o amgylch y byd.

caid.org.uk/lent

LAWR LWYTHWCH MWY O GOPÏAU O caid.org.uk/lent

cymorth cristnogol

Credwn mewn byw cyn marw

Croeso!

Wrth inni ddilyn taith Iesu'r Grawys hwn, beth am inni wynebu'r anialwch yn ein byd ein hunain? Gadewch inni gerdded gyda'n cymdogion - fel Dimma, Ibrahim a Sori - sydd wedi eu gorfodi o'u cartrefi.

Byddwch yn myfyrio ar fendithion eich bywyd, ac yn gweld sut mae eich cefnogaeth yn rhoi gobaith i bobl.

Rydym yn falch iawn eich bod gyda ni.

Sut i gyfrif eich bendithion

1. Darllenwch y myfyrdod dyddiol.
2. Cyfrwch eich bendithion a rhoi'r cyfanswm yn y gofod.*
3. Gweddïwch a gweithredwch gyda ni er mwyn rhannu eich bendithion.
4. Ar ôl y Pasg, adiwch eich cyfraniadau ac anfonwch eich cyfanswm i Cymorth Cristnogol. Mae'n hawdd iawn - jest defnyddiwch y ffurflen neu cyfrannwch ar lein yn **caid.org.uk/lent**

*Os gwelwch yn dda, rhowch yr hyn allwch chi fforddio. Awgrymiadau yn unig yw'r symiau dyddiol. Cofiwch, mae pob punt rowch chi yn mynd i drawsnewid bywydau.

Beth am gynnwys y plant?

Mae gennym fersiwn arbennig o Cyfra dy Fendithion i blant (Saesneg yn unig).

Archebwch eich copïau yn

ewch i: caid.org.uk/lent
ebostiwch: orders@christian-aid.org
ffoniwch: 0870 078 7788

Dimma

Ibrahim

Sori

Wythnos 1

14-18 Chwefror

I mewn i'r anialwch

Eich cyfanswm am wythnos 1:

Dydd Mercher 14 Chwefror

Dydd Mercher Lludw

Mae newid hinsawdd yn bygwth y pethau yr ydym yn eu caru, ac yn taro ein cymdogion tlotaf waethaf. Mae tywydd eithafol, o sychder i lifogydd, yn gorfodi llawer i ffoi o'u cartref. Daliwch hwy yn eich calon.

Dangoswch gariad trwy wisgo calon werdd heddiw. Byddwch yn cyfarfod cymdogion newydd ar ein taith trwy'r Grawys - rhannwch eu storïau gyda'ch anwyliaid. A rhowch £1 am bob person newydd y gwnewch eu cyfarfod heddiw. **showthelove.org.uk**

Dydd Iau 15

Dychmygwch orfod gadael popeth: eich cartref, eich teulu, eich cymuned, y cwbl am ddyfodol ansicr. I lawer o'n chwiorydd a'n brodyr mae'r anialwch hwn yn un go iawn. Oddi wrth beth bynnag y maent yn ffoi, boed yn anghydfod neu'n newid hinsawdd, maent yn gobeithio am gychwyn newydd.

Rhowch 30c am bob milltir ichi ei theithio oddi wrth eich cartref heddiw, neu £3 os ydyw'n fwy na 10 milltir.

Dydd Gwener 16

Mae mwy na 40 miliwn o bobl ar draws y byd yn bobl sy wedi eu dadleoli'n fewnol. Golyga hyn eu bod wedi eu gorfodi o'u cartref ond eu bod yn parhau i fyw oddi fewn i'w gwlad eu hunain. Cânt eu hanwybyddu yn aml, heb yr amddiffyniadau a roir i ffoaduriaid, a rhaid iddynt greu bywyd newydd iddynt eu hunain mewn llefydd anghyfarwydd.

Ewch am dro yn eich ardal. Wrth ichi gerdded, diolchwch i Dduw am bopeth a ddaw a llawenydd yn eich cymuned.

Rhannwch lun o rywbeth yr ydych yn ddiolchgar amdano yn eich cymuned. Defnyddiwch #CyfraDyFendithion ar y cyfryngau cymdeithasol.

Penwythnos 17 & 18

'Roedd Iesu'n llawn o'r Ysbryd Glân pan aeth yn ôl o ardal yr Iorddonen. Gadawodd i'r Ysbryd ei arwain i'r anialwch.' Luc 4:1

Wynebodd Iesu heriau yn yr anialwch, ond nid oedd ar ei ben ei hun. Arweiniodd yr Ysbryd Glân ef ar y daith.

Mae Dub yn gweithio i bartner Cymorth Cristnogol yng ngogledd Kenya. Daw o deulu o ffermwyr teithiol a bellach mae'n sefyll dros y rhai sy mewn angen mawr. Mae ein chwiorydd a'n brodyr yn yr anialwch yn aml yn cael cefnogaeth gan bobl fel Dub ar eu taith.

Pwy fyddai ar gael i chi mewn adeg anodd? Rhowch 50c mewn diolchgarwch am bob person.

Wythnos 2

19-25 Chwefror

Taith Ibrahim

Eich cyfanswm ar gyfer wythnos 2:

Dydd Llun 19

Fe gymerodd Boko Haram bentref Nana ac Ibrahim drosodd. Am y flwyddyn ddiwethaf, maent wedi goroesi mewn gwersyll i bobl sy wedi eu dadleoli gyda'u tri o blant.

Mae cartref yn bwysig iawn i ni i gyd.

Rhowch 50c am bob tro y cerddwch trwy ddrws ffrynt eich cartref heddiw.

Dydd Mawrth 20

Yn union fel y Cristionogion cynnar, mae llawer o'n chwiorydd a'n brodyr yn cymryd safiad dros eu ffydd, hyd yn oed yn wyneb marwolaeth. Gwrthododd Ibrahim ag ymaelodi a Boko Haram, ac wynebu bygythiad i'w fywyd.

Heddiw, gweddïwch dros bawb sy'n wynebu erledigaeth.

Dydd Mercher 21

Pan lwyddodd Nana i ddianc, ataliodd Boko Haram hi ar y ffordd a dwyn ei hasyn. Gorfodwyd hi a'i phlant i gerdded am dri diwrnod i gyrraedd diogelwch. Cysgasant dan y coed ar y ffordd.

Sawl pâr o sgidiau sydd gennych? Rhowch 20c am bob pâr.

Dydd Iau 22

Colombia. Gweriniaeth Ddemocrataidd y Congo. Irac. Nigeria. Swdan. Syria. Dyma'r gwledydd gyda'r nifer uchaf yn y byd o bobl wedi eu dadleoli.

Cyneuwch gannwyll a gweddïwch dros rai o'r gwledydd hyn. Rhannwch lun ar y cyfryngau cymdeithasol a gwahoddwch eraill i weddïo hefyd.

Dydd Gwener 23

Cyn i Ibrahim orfod ffoi o'i gartref, ffermwr ydoedd. Ond ni all ffermio yn y gwersyll. Mae'n gweithio'n galed i gasglu coed tân i'w gwerthu, ac wedi llwyddo i adeiladu lloches fach, ond yn parhau i'w chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd.

Heddiw, ymprydiwch trwy un o'ch prydau. Cyfrannwch yr arian y byddech wedi gwario ar y bwyd.

Mae Ibrahim a'i deulu wedi ceisio lloches mewn gwersyll.

Penwythnos 24 & 25

'Na, dyma'r math o ymprydio dw i eisiau ... Rhannu dy fwyd gyda'r newynog, rhoi lle i fyw i'r rhai tlawd sy'n ddigartref a rhoi dillad i rywun rwyt yn ei weld yn noeth; peidio ceisio osgoi gofalu am dy deulu.' Eseia 58:6-7

Taith o obaith yw'n taith trwy'r Grawys. Y gobaith y gallwn dyfu fel disgyblion, y gobaith y caiff ein calon ei llenwi fwyfwy a chariad Duw.

Y penwythnos hwn, rhowch amser i fyfyrio ar ein taith trwy'r Grawys. Ydych chi'n caniatáu i Dduw newid eich calon? Sut ydych chi'n newid y byd er gwell?

Wythnos 3

26 Chwefror – 4 Mawrth

Taith Dimma

Eich cyfanswm am wythnos 3:

Dydd Llun 26

Pythefnos Masnach Deg

Wyddech chi fod Masnach Deg yn helpu ffermwyr i ofalu am yr amgylchedd? Maent yn dysgu tyfu eu cnydau mewn ffordd gynaliadwy, ac yn buddsoddi mewn prosiectau lleol.

Heriwch eich hun i brynu mwy o gynnyrch Masnach Deg a chynnyrch sy'n gyfeillgar â'r amgylchedd yr wythnos hon.

Dydd Mawrth 27

Dyw Dimma ddim yn cofio gweld glaw yn ei rhan hi o Kenya ers dwy flynedd. Mae newid hinsawdd yn gwneud sychder yn waeth yn Kenya, ac mae teulu Dimma wedi colli geifr a defaid. Gorfodwyd hwy i symud er mwyn chwilio am ddŵr.

Diolchwch i Dduw am ba bynnag dywydd a gewch heddiw.

Dydd Mercher 28

Rhoddodd bartner Cymorth Cristnogol fwyd da byw ac arian i Dimma. Defnyddia Dimma ef i fwydo ei hanifeiliaid a phrynu bwyd i'w theulu. Ni fyddent wedi goroesi heb y gefnogaeth.

A ydych wedi prynu trît ichi'ch hun heddiw? Rhowch yr un faint i helpu pobl fel Dimma.

Dydd Iau 1 Mawrth

Nid jest teulu Dimma sy'n ei chael hi'n anodd goroesi ble maent. Mae newid hinsawdd yn creu anawsterau i filiynau. Dylai pawb gael cartref diogel.

Rhowch £1 am bob taith mewn car a wnewch heddiw, neu 60c os nad ydych wedi teithio mewn car.

Dydd Gwener 2

Bu taith Dimma'n anodd, ond mae hi a'i theulu wedi setlo yn eu cartref newydd bellach. Mae'n agos i siop lle gall brynu llefrith i'w phlant, gan roi diet maethlon iddynt. Peth bach ydyw, ond mae'n bwysig iawn.

Allech chi fyw heb lefrith yn eich te? Ceisiwch heddiw neu roi £1.

Penwythnos 3 & 4

'Felly gwnaeth chwip o reffynnau, a'u gyrru nhw i gyd allan o'r deml gyda'r defaid a'r ychen. Chwalodd holl arian y rhai oedd yn cyfnewid arian, a throi eu byrddau drosodd.' Ioan 2:15

Pan welodd Iesu dŷ ei Dad yn cael ei ecsbloetio, gwnaeth safiad er mwyn cyfiawnder. Gofynnwch i chi'ch hun: pwy sy'n ecsploetio grym yn ein byd? Pa fyrddau sy angen eu troi?

Gallwch weithredu ar newid hinsawdd. Ymunwch a'n hymgyrch Cam Mawr a gofyn i'r banciau fuddsoddi mewn ynni glân. Ewch i **caid.org.uk/bigshift**

Dimma'n bwydo'r da byw sydd ganddi ar ôl gyda bwyd gan ein partner.

Wythnos 4

5-11 Mawrth

Taith Aisha

Eich cyfanswm ar gyfer wythnos 4:

Dydd Llun 5

Mae Aisha wedi gweld mwy nag y dylai neb. Pan ymosododd Boko Haram ei phentref, lladdasant ei chwaer yng nghyfraith o'i blaen. Bu bron raid iddi briodi dieithryn. Ffodd.

Hyd yn oed mewn dyddiau tywyll, mae Iesu yno.

Gweddïwch dros ein chwiorydd fel Aisha heddiw.

Derbyniodd Aisha groeso mewn cymuned newydd.

Dydd Mawrth 6

Ers 2013, mae Boko Haram wedi defnyddio tactegau treisgar iawn i ddychryn pobl yng ngogledd ddwyrain Nigeria. Mae merched a phlant yn fregus iawn. Cafodd miliynau eu dadleoli. Mae partner Cymorth Cristnogol wedi bod yn eu cefnogi.

Dychmygwch yr ofn y mae ein cymdogion yn ei ddioddef. Rhowch 40c am bob awr o gwsg a gawsoch chi neithiwr.

Dydd Mercher 7

Dychmygwch gerdded o Wrecsam i Fae Colwyn trwy'r nos. Allech chi wneud hyn? Yn feichiog, cerddodd Aisha fwy na 45 milltir gyda'i phlant i ddiogelwch. Cymerodd dri diwrnod.

I ble ydych chi wedi teithio ers y Sul? Rhowch 10c am bob taith.

Dydd Iau 8

Dydd Rhyngwladol y Ferch

Pan gyrhaeddodd Aisha ddiogelwch, defnyddiodd ei doniau i wneud cardiau cyfarch a llaw, a'u gwerthu er mwyn talu rhent am gartref newydd.

Gweddïwn dros pob merch sy'n byw mewn tlodi. Cyflwynwn hwy a'u teuluoedd i Dduw.

Dydd Gwener 9

Mae partner Cymorth Cristnogol, Jireh Doo Foundation, yn gweithio gyda pobl wedi eu dadleoli yn Nigeria. Maent yn eu hyfforddi i ddeall hawliau'r ferch a sut y gallent sefyll dros eu hawliau eu hunain.

Mae addysg yn newid bywydau. Rhowch 30c am bob llyfr ar eich silff nad ydych wedi ei ddarllen.

Penwythnos 10 & 11

Sul y Mamau

'Fe aned fy merch, ac roeddem yn cysgu yn yr awyr agored, felly roedd yr oerfel yn ormod i mi a'm plentyn.' Aisha

Cafodd Aisha hi'n anodd i ofalu am y babi yn y gwersyll. Pan ddechreuodd rhentu tŷ newydd, gwelodd y perchenog ei thrafferthion a gwrthododd gymryd mwy o rent. Dywedodd, 'Rwyn ddiolchgar i Dduw ac i'n landlord am roi'r lle yma inni.

Myfyriwch ar bwy sydd wedi dangos trugaredd ichi. Ysgrifennwch lythyr diolch iddynt am eu cariad a'u gofal.

Rhannwch lun o'r person arbennig hwnnw ar y cyfryngau cymdeithasol, yn defnyddio'r #CyfraDyFendithion

Wythnos 5

12-18 Mawrth

Taith Sori

Eich cyfanswm ar gyfer wythnos 5:

Dydd Llun 12

Mae Sori a'i gŵr Galgalo yn byw yng ngogledd Kenya gyda'u chwe plentyn. Gorfododd y sychder hwy i symud i chwilio am ddŵr. Mae Galgalo yn aml i ffwrdd oddi cartref ac mae Sori yn ei fethu'n fawr. Gweddïa y caiff y teulu fod gyda'i gilydd.

Beth yw'ch gweddïau chi am y dyfodol? Yr wythnos hon, cynhwyswch Sori yn eich gweddïau.

Sori'n derbyn grant ariannol fydd yn achub ei bywyd

Dydd Mawrth 13

Gofalodd Sori bod ei holl blant yn yr ysgol. 'Fûm i ddim yn yr ysgol, ond y rhai sy wedi bod ydi'r rhai sy'n hunangynhaliol rŵan,' meddai. 'Mae dyfodol fy mhlant yn bwysig i mi.'

Mae plant Sori'n cerdded i'r ysgol. Rhowch 50c am bob ysgol sy o fewn cyrraedd taith gerdded i'ch cartref, neu £4.

Dydd Mercher 14

Arferai Sori a'i gŵr allu talu am ysgol eu plant, ond gwnaeth y sychder hyn yn anodd. Rwan mae Sori'n defnyddio'r arian gafodd hi gan bartner Cymorth Cristnogol i gadw'r plant yn dysgu.

Rhowch 20c am bob blwyddyn o addysg gawsoch chi.

Dydd Iau 15

'Llais yn gweiddi'n uchel yn yr anialwch, 'Cliriwch y ffordd i'r Arglwydd! Dyna ydw i.' Ioan 1:23

Mae pobl wedi eu dadleoli'n fewnol yn aml yn cael eu hanwybyddu gan y gymuned ryngwladol. Eleni rydym yn codi llais drostynt yn y Cenhedloedd Unedig.

Ymunwch â ni. Cofrestrwch am ddiweddariadau yn **caid.org.uk/campaigns**

Dydd Gwener 16

Er bod eu sefyllfa'n parhau i fod yn ansicr, mae Sori'n obeithiol. 'Nid ydym yn dewis gadael ein cartref, ond rydym yn parhau i fod yn bositif, yn edrych ymlaen at y dydd y cawn fod efo'n gilydd fel teulu eto,' meddai.

Rhowch 20c am bob blwyddyn yr ydych wedi gallu aros yn eich cartref, neu £3.

Penwythnos 17 & 18

'Gweddïaf am iechyd fy mhlant, teulu ac anifeiliaid, fel y gallwn fod yn gryf.' Galgalo Elema

Onid yw hi'n rhyfeddol - dim ots ble rydym na beth fo ein sefyllfa, ein bod yn rhannu'r un gweddïau a'n brodyr a'n chwiorydd. Sut allem ni fod yn gryf ar gyfer ein teulu byd-eang?

Y penwythnos hwn, rhannwch bryd gyda theulu neu ffrindiau.

Rhannwch lun o'r digwyddiad ar y cyfryngau cymdeithasol, yn defnyddio #CyfraDyFendithion

Wythnos 6

19-25 Mawrth

Taith Ayuba

Eich cyfanswm am wythnos 6:

Dydd Llun 19

Yn Maiduguri, gogledd-ddwyrain Nigeria, mae Cymorth Cristnogol yn rhannu bwyd brys i bobl sy wedi eu dadleoli a'r bobl sy'n gofalu amdanynt. I rai, dyma'r unig gefnogaeth a gant.

Rhowch £1 am bob pryd gewch chi heddiw.

Dydd Mawrth 20

Mae poblogaeth Maiduguri wedi dyblu oherwydd y bobl sy'n ffoi yno. Er bod y cymunedau yno mewn tlodi eisoes, maent yn dal i dderbyn pobl sy wedi eu dadleoli i'w cartrefi.

Gofynnwch i wleidyddion godi llais ar ran pawb sy wedi eu dadleoli – ymunwch a'n hymgyrch heddiw: **caid.org.uk/ignorenomore**

Ein partner yn rhoi bwyd i bobl wedi eu dadleoli yn Nigeria

Dydd Mercher 21

Mae Ayuba wedi agor ei gartref i rai sy wedi ffoi rhag trais. Er mai ond naw stafell sydd i'w gartref, ar un pryd roedd mwy na 100 yn llochesu yno. Meddai, 'Does ganddynt neb i'w helpu ond y fi.'

Rhowch £1 am bob stafell wely yn eich tŷ.

Dydd Iau 22

Dydd Dŵr y Byd

Yn nhalaith Borno, Nigeria, ni all y gwasanaethau dŵr ddygymod a'r nifer o bobl sy wedi eu dadleoli yno. Mae partner Cymorth Cristnogol yn cyflenwi dŵr glân a glanweithdra.

Rhowch 30c am bob munud o gawod gawsoch chi neu £2 os cawsoch chi fath heddiw.

Dydd Gwener 23

Mae'r arian y mae Ayuba yn ei golli mewn rhent yn golygu ei fod yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd. Mae Cymorth Cristnogol wedi bod yn ei helpu. 'Rwy'n hapus wrth ddeall fod rhywrai yn meddwl amdanaf. Gweddïwch drosom y cawn ein bywyd yn ôl,' meddai.

Gweddïwch dros Ayuba a phawb sy'n aros gydag ef.

Penwythnos 24 & 25

Sul y Palmwydd

'Dyma nhw'n torri canghennau o'r coed palmwydd a mynd allan i'w gyfarfod gan weiddi, "Hosanna! Mae'r un sy'n dod i gynrychioli'r Arglwydd wedi'i fendithio'n fawr - dyma Frenin Israel!"' Ioan 12:12-14

Daliodd y dyrfa frigau'n uchel, yn eu chwifio ar gyfer dyn ar gefn asyn. Sut ydym ni'n croesawu newydd-ddyfodiaid, teithwyr blinedig, yn cyrraedd efo fawr o lewyrch? Sut allwn ni ddathlu eu dyfodiad? Sut allwn ni osod ein cotiau ar y llawr iddynt?

Faint o bobl wnewch chi eu cyfarch y penwythnos hwn? Rhowch 40c am bob un, neu £2.50

Wythnos 7

Yr Wythnos Sanctaidd

26 Mawrth – 1 Ebrill

Taith i'r Groes

Eich cyfanswm yr wythnos hon:

Dydd Llun 26

Gweddïa Elama o Kenya, 'Yn gyntaf, gweddïaf am heddwch ac yn ail am yr hyn nad oes gen i. Wrth heddwch golygaf i bawb fod gyda'i gilydd, i bawb gael dod adref, i bawb fyw yn hapus. Yn drydydd, am law!'

Wnaethoch chi edrych ar ddarogan y tywydd heddiw? Rhowch £1 os gwnaethoch.

Dydd Mawrth 27

'Galwodd yr ARGLWYDD fi cyn i mi gael fy ngeni; rhoddodd fy enw i mi pan oeddwn i'n dal yng nghroth fy mam.' Eseia 49:1

Credwn i bawb gael eu creu yn nelw Duw. Gwyddom fod 40 miliwn wedi eu dadleoli oddi fewn i'w gwledydd oherwydd anghydfod, ond gall y nifer fod yn llawer uwch na hyn. Cofiwn fod pob un ohonynt yn blant i Dduw.

Petai rhaid ichi ffoi o'ch cartref, pa eiddo na fyddech yn gallu ei adael ar ôl? Cariwch ef gyda chi ble bynnag yr ewch heddiw.

Rhannwch lun ohono ar y cyfryngau cymdeithasol yn defnyddio #CyfraDyFendithion a galwch ar i eraill wneud yr un peth.

Dydd Mercher 28

Mae Deborah yn gweithio i Cymorth Cristnogol yn Maiduguri, Nigeria. Mae'n helpu i ofalu am bobl sy wedi eu dadleoli sy'n byw mewn gwersylloedd, yn rhoi bwyd iddynt ac yn gwrando ar eu storïau. Meddai, 'Rhaid ichi fod yn gryf. Mae'n anodd, ond rhaid darganfod ffordd i'w gymryd i mewn.'

Ydych chi'n anwybyddu storïau sy'n rhy anodd gwrando arnynt? Sut allwn ni wrando gyda thosturi?

Dydd Iau 29

Dydd Iau Cablyd

'Ond paid gwneud beth dw i eisiau, gwna beth rwyt ti eisiau.' Luc 22:42

Torrir y bara. Rhennir y gwin. Mae taith Iesu i'r groes wedi cychwyn. Yng Ngardd Gethsemane, gweddïa Iesu, 'Ond paid gwneud beth dw i eisiau, gwna beth rwyt ti eisiau.' Mae Iesu yn ymddiried yn Nuw ar yr awr ddu hon.

Ydych chi'n ymddiried yn llwyr yn Nuw? Sut allwch chi ymddiried mwy ynddo heddiw?

Gorfodwyd Elama Dido i ddibynnu ar gymorth oherwydd y sychder yng ngogledd Kenya

† Rhif elusen Cymru a Lloegr 1105851 Rhif cwmni DG 5171525. Nodau masnachu Cymorth Cristnogol yw'r enw Cymorth Cristnogol a'r logo. © Cymorth Cristnogol Ionawr 2018. Mae Cymorth Cristnogol yn aelod allweddol o ACT Alliance. J45753
Lluniau: Cymorth Cristnogol/ Elaine Duigenan, Cymorth Cristnogol/ Tom Pilston, Cymorth Cristnogol/Matthew Gonzalez-Noda.

Dydd Gwener 30
Dydd Gwener y Groglith

'Dyma Iesu'n dweud, "Mae'r cwbl wedi'i wneud." Yna plygodd ei ben a marw.' Ioan 19:30

Cerddodd Iesu'r llwybr anoddaf un. I'r rhai heddiw sy'n wynebu galar ac yn ofni'r daith o'u blaen, mae Iesu yn rhannu'r daith honno. Ni cherddant eu hunain. Cerddwn ninnau gyda hwy, yn rhannu eu galar, fel chwiorydd a brodyr. Gwyddom nad dyma ddiwedd y stori.

Edrychwch yn ôl ar eich taith trwy'r Grawys. Sut fyddwch chi'n parhau i gerdded gyda'r rhai mewn angen?

Dimma yn dal gafr bach, wedi ei gadw'n fyw gan fwyd ein partner.

Penwythnos 31 Mawrth & 1 Ebrill
Dydd Sadwrn Sanctaidd a Sul y Pasg

Cododd Iesu! Troir marwolaeth yn atgyfodiad, troir anobaith yn obaith. O amgylch y byd, pa le bynnag y mae'n cymdogion ar daith, rydym gyda hwy. Estynwn ein dwylo at gymunedau wedi eu rhwygo gan drais, i gymdogion wedi eu gorfodi o'u cartrefi. Cyhoeddwn neges o obaith.

Credwn yn y byd llawen, godidog y mae atgyfodiad Iesu yn ei addo. Cerddwn gyda'n gilydd hyd nes inni ei gyrraedd.

Dros y Pasg, dathlwn obaith na ellid mo'i gyfyngu. Yr Wythnos Cymorth Cristnogol hon, ymunwch gyda miloedd o eglwysi i rannu gobaith i bobl wedi eu dadleoli o amgylch y byd. Ewch i **caweek.org**

Diolch am gyfrif eich bendithion!

EICH CYFANSWM DROS Y GRAWYS:

Diolch am gerdded gyda'n cymdogion fel Dimma'r Grawys hwn. Bydd eich cyfraniad hael yn golygu y gallwn barhau i gerdded gyda'r rhai mewn angen mawr trwy'r byd.

£20 gallai brynu bwyd anifeiliaid i warchod da byw teuluoedd fel Dimma

£40 gallai roi arian i ddau deulu, fel y gallent brynu'r bwyd y maent mewn mawr angen amdano.

£70 gallai brynu cyflenwad mis o ffa i deulu yn Nigeria, rhywbeth angenrheidiol i rai orfodwyd i adael eu cartref heb ddim.

Mae'n hawdd iawn cyfrannu:

Ewch i **caid.org.uk/lent** a chyfrannu ar lein.

Ffoniwch 020 7523 2269 a dyfynwch **A030335** i gyfrannu gyda cherdyn debyd neu gredyd.

Anfonwch siec gyda'r ffurflen isod. (Os gwelwch yn dda, rhowch 'Count your Blessings' ar ei chefn.)

Dychwelwch y ffurflen, gyda'ch cyfraniad hael, i Count your Blessings, Christian Aid, 35 Lower Marsh, London SE1 7RL.

Enw

Cyfeiriad

Cod post

☐ Os ydych yn newydd i Cymorth Cristnogol a ddim am inni ysgrifennu atoch trwy'r post, neu os ydym yn gohebu gyda chi eisoes ac am inni roi'r gorau iddi, rhwch dic yma. Ni wnaiff Cymorth Cristnogol byth rannu eich manylion gydag unrhyw gorff arall.

Os ydych yn hapus inni gysylltu gyda chi trwy ebost neu ffôn, os gwewlch yn dda rhowch eich manylion isod. Defnyddiwn y manylion hyn i bwrpas ymgyrchu a chodi arian. Trwy eu cyflenwi rydych yn caniatau i dderbyn adnoddau marchnata gan Cymorth Cristnogol trwy'r dulliau hyn:

Ebost

Rhif ffôn

Rhowch dic yma os am dderbyn derbynneb am eich cyfraniad ☐

Amgaeaf siec am £ . Mae hyn yn cynnwys £ . o *Count Your Blessings* y plant.

Ychwanegwch 25% i'ch cyfraniad am ddim!

Gall Cymorth Cristnogol hawlio 25c am bob £1 a gyfrannwch o'r dreth a dalwch.

☐ Rhowch dic os gwelwch yn dda. Rwyf am hawlio Cymorth Rhodd ar fy nghyfraniad o . ac unrhyw gyfraniad a wnaf yn y dyfodol neu wedi ei wneud yn y 4 blynedd diwethaf i Cymorth Cristnogol. Rwy'n dreth dalwr yn y DG a deallaf os byddaf yn talu llai o Dreth Incwm a/neu Dreth Enillion Cyfalaf na'r swm o Gymorth Rhodd yr wyf yn ei hawlio ar fy holl gyfraniadau yn y flwyddyn dreth honno, yna fy nghyfrifoldeb i yw talu'r gwahaniaeth. Os gwelwch yn dda, hysbyswch Cymorth Cristnogol os ydych am ddileu'r datganiad hwn, newid eich enw neu'ch cyfeiriad gartref, neu os nad ydych yn talu digon o dreth ar eich incwm a/neu enillion cyfalaf.

Dyddiad heddiw D D M M Y Y

giftaid it

cyfeirnod: A030335

F2425